Helen Oldfield
Ysgol Bro Alun
Delamere Avenue
Gwersyllt
Wrexham
LL11 4NG

14/07/2025

Annwyl Helen Oldfield

**Ymweliad Interim:** Mehefin 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Bro Alun yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag un argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol a blaenoriaeth yng nghynllun gwella cyfredol yr ysgol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, siarad ag arweinwyr, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Gwella safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion, yn enwedig ar frig yr ysgol

- Mae athrawon yn cyd-gynllunio cyfleoedd diddorol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn bwrpasol. Mae'r gweithgareddau dysgu yn cynnig her briodol wrth gefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd cyson yn eu medrau ar draws y meysydd dysgu a phrofiad dros gyfnod.
- Mae arweinwyr ac athrawon wedi datblygu dulliau cyson i arfogi disgyblion i ddatblygu a mireinio eu medrau ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau yn adeiladol dros amser.
- Erbyn cyrraedd brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu estynedig yn fwriadus yn eu gweithgareddau dysgu ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.
- Wrth i fedrau'r disgyblion aeddfedu, mae athrawon yn darparu cyfleoedd ystyrlon iddynt ymarfer ac i feithrin eu medrau mathemateg a rhifedd mewn cyd-destunau bywyd go iawn a chyfarwydd.

- Yn gyffredinol, mae'r ddarpariaeth o fewn yr ardaloedd dysgu tu fewn yn bwrpasol ac yn darparu cyfleoedd buddiol i'r disgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd a llythrennedd yn gyson. Mae arweinwyr yn cydnabod yr angen i gryfhau'r ddarpariaeth ac i wneud defnydd mwy cyson o'r ardaloedd dysgu tu allan i hybu medrau'r disgyblion yn barhaus.
- Mae'r disgyblion hynaf yn cymhwyso eu medrau yn fwriadus wrth gymryd rhan mewn prosiectau mentergarwch rheolaidd gan dalu sylw i elw a cholled.
- Mae arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hyrwyddo a chefnogi dysgu proffesiynol staff. Mae'r cyfleoedd hyn yn annog cydweithio effeithiol wrth ddatblygu polisi cyfrifo cyson ag ysgolion lleol a chynllunio gweithgareddau dysgu cyfoethog i ddisgyblion.
- Mae'r arweinydd rhifedd yn manteisio ar gyfleoedd priodol i arsylwi sesiynau dysgu yn yr ysgol uwchradd leol er mwyn cysoni dulliau addysgu agweddau penodol o fathemateg er mwyn hwyluso trefniadau pontio effeithiol.

### Gwella safonau'r Gymraeg ar draws yr ysgol gan gychwyn gyda pharodrwydd disgyblion i gyfathrebu yn y Gymraeg.

- Mae gan yr ysgol ethos Cymreig cryf sy'n hybu disgyblion i wneud defnydd cyson o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd ysgol.
- Mae arweinwyr yn hyrwyddo manteision dysgu Cymraeg a bod yn ddwyieithog yn llwyddiannus. Mae staff yn angerddol am yr iaith Gymraeg ac yn manteisio ar bob cyfle i feithrin a gloywi medrau iaith lafar Cymraeg disgyblion. Mae hyn yn arfogi disgyblion i wneud defnydd cadarn o'r Gymraeg yn ystod eu sesiynau dysgu.
- Ar draws yr ysgol, mae staff yn derbyn cyfleoedd dysgu proffesiynol effeithiol er mwyn gwella medrau cyfathrebu disgyblion. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus gyda'r ganolfan drochi iaith leol i rannu arfer dda ac adnoddau. Mae hyn yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar addysgu'r medrau ac ar gynnydd cyson ym medrau llafar Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion.
- O oedran cynnar, mae staff yn cyflwyno dulliau caffael iaith bwrpasol i ddisgyblion gan ddefnyddio ystum, ac ail-adrodd patrymau iaith yn gyson sy'n eu galluogi i ddysgu'r iaith Gymraeg yn gyflym. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i fod yn gyfranwyr llawn yn y sesiynau dysgu mewn cyfnod byr.
- Wrth i fedrau'r disgyblion aeddfedu, mae ganddynt afael gadarn ar batrymau iaith maent yn cymhwyso'r Gymraeg yn effeithiol wrth drafod pynciau a chyflwyno gwybodaeth.
- Mae'r grŵp 'llysgenhadon iaith' yn gweithredu'n frwdfrydig ac yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau arwain gyda balchder ac aeddfedrwydd. Maent yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd cyson o'r Gymraeg yn llwyddiannus.

- Mae staff yn trefnu gweithgareddau pwrpasol i godi ymwybyddiaeth rhieni am ffyrdd i gefnogi eu plant i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r disgyblion ieuengaf yn mynd a thegan adref er mwyn ymarfer eu Cymraeg gyda'u teuluoedd. Mae hyn yn hyrwyddo medrau siarad Cymraeg rhwng rhieni a'u plant yn bwrpasol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6652279

Yn gywir

L Miles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol